**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Llun, 15 Hydref 2018**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni chafodd unrhyw fuddiant ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | BARGEN DWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: DOGFEN GYNNIG | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Ddogfen Gynnig ac yn argymell bod y Cyngor yn ei mabwysiadu fel (1) y sail ar gyfer strategaeth ranbarthol fwy hirdymor ar gyfer twf economaidd a (2) y cais rhanbarthol ar gyfer rhaglenni a phrosiectau â blaenoriaeth, a fydd yn sail ar gyfer cynnwys y Fargen Twf a lunnir wrth gytuno ar Benawdau Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth. Nid yw mabwysiadu'r ddogfen yn rhwymo'r Cyngor i wneud unrhyw fuddsoddiad ariannol ei hun am y tro, ac mae'n amodol ar bennu risgiau a manteision y Fargen Twf derfynol yn fanwl a'u hystyried yn llawn cyn cyflwyno'r Fargen derfynol er cymeradwyaeth faes o law; ac*<br><br>*(b) awdurdodi'r Arweinydd i ymrwymo'r Cyngor i gytuno ar Benawdau Telerau â'r ddwy Lywodraeth, ar y cyd ag arweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol y naw partner statudol arall sydd â chynrychiolaeth ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru, Mersi a Dyfrdwy, o fewn y ffiniau hynny a bennir yn y Ddogfen Gynnig.* |
| **5** | EITEMAU O'R PWYLLGORAU CRAFFU | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn cydnabod casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn sgil ei adolygiad o benderfyniadau'r Cabinet ar 25 Medi;*<br><br>*(b) ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r wybodaeth ychwanegol a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *ddarparwyd yn y cyfarfod, yn cadarnhau'r penderfyniadau a wnaethpwyd ar 25 Medi 2018, sef –*<br><br>*(i) cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyn cynllunio a cheisiadau cynllunio llawn dilynol (gan ystyried canlyniadau'r ymarfer cyn cynllunio) ar gyfer safleoedd preswyl a theithiol Sipsiwn a Theithwyr ar y safle 'Green-gates Farm East' yn y lleoliadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*<br><br>*(ii) cymeradwyo cyflwyno ceisiadau cyllid i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynigion ar gyfer safleoedd preswyl a/neu Sipsiwn a Theithwyr yn amodol ar roi caniatâd cynllunio yn unol â'r rhaglen a amlinellwyd ym mharagraff 4.11 o'r adroddiad."*<br><br>*(c) bod yr Aelod Arweiniol yn meithrin cyswllt â'r Aelodau Lleol i gytuno ar y dull mwyaf priodol o ymgynghori â'r gymuned yn y cyfnod cyn cynllunio, ac*<br><br>*(d) o ran pob mater a ddaw gerbron y Cabinet er penderfyniad, bod yr Aelodau Arweiniol yn awr ac yn y dyfodol yn ystyried yr angen i friffio'r Aelodau eraill ac ymgysylltu â hwy, ac y gallai'r ffordd fwyaf priodol a chymesur o wneud hynny gynnwys Briffio'r Cyngor, Pwyllgor Craffu neu weithdai/sesiynau hyfforddiant.* |